# Astudiaeth Achos Llyfr Darllen Digidol Eisteddfod yr Urdd 2018

## Cyflwyniad

Daeth Eisteddfod yr Urdd i Frycheiniog a Maesyfed yn 2018 – y tro cyntaf i'r Eisteddfod ymweld a'r ardal mewn 40 mlynedd. Yn sgil yr Eisteddfod roedd cymuned Cymraeg y fro yn obeithiol iawn y byddai'n arwain at gynnal fwy o weithgareddau'r Urdd yn lleol, yn enwedig wrth i Swyddog Datblygu cael ei benodi'n llawn amser yn benodol i'r ardal.

Mae Brycheiniog a Maesyfed yn ardal lle mae'r canran o siaradwyr yn isel (18% ar gyfer Powys gyfan, ond yn is yn gyffredinol ar draws de'r Sir, yn enwedig wrth ystyried Maesyfed a dwyrain yr ardal.) Nid yw lefel aelodaeth yr Urdd  yn uchel, yn enwedig ymysg ysgolion ail iaith.

## Her

Gyda Eisteddfod yr Urdd yn dod i'r ardal yn Mai 2018, roedden ni fel Menter a Phwyllgor Eisteddfod yr Urdd yn ymwybodol nad oedd neges yr Urdd wedi cyrraedd rhieni yr ardal, er gwaetha'r holl waeth o ymweld ag ysgolion oedd wedi bod yn digwydd ers rhyw flwyddyn. Am nad oedd traddoliad cryf o aelodaeth yr Urdd yn lleol, a diffyg hanesyddol o weithgarwch gan yr Urdd, roedd yn bwysig ceisio annog teuluoedd lleol i ymweld ag Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed er mwyn adeiladu ar yr Eisteddfod a chynyddu aelodaeth at y dyfodol.

Ar yr un adeg, roeddem wedi bod yn chwilio adnodd darllen addas i'w defnyddio gyda phlant ail iaith oed cynradd. Roedd nifer o rieni di-Gymraeg wedi defnyddio ap Magi Ann (prosiect RDP yn ardal Sir y Fflint) ond roedd yn rhy syml ei ddyluniad i barhau i'w defnyddio gyda'u plant yn yr ysgol gynradd.

## Ateb

Penderfynwyd defnyddio cymeriad Mistar Urdd mewn stori oedd yn syml o ran iaith, ond yn fwy aeddfed o ran cynnwys a dyluniad.

Er mwyn i rieni di Gymraeg allu gwneud y gorau o'r stori, penderfynwyd bod angen ap lle gellid newid yr iaith er mwyn gallu deall y geirfa a chlywed y stori wedi'i ddarllen yn uchel yn y Gymraeg.

## Budd

Cyhoeddwyd dau lyfr ynghlwm gyda'r ap a'u dosbarthu am ddim i blant ysgol, ysgolion, llyfrgelloedd ac ymwelwyr i Eisteddfod yr Urdd. Lawrlwythywyd yr ap dros 200 o weithiau yn ystod wythnos yr Urdd. Mae'r ap yn parhau i fod ar gael i'w lawrlwytho.

## Canlyniad

Cynhyrchwyd adroddiad peilot o'r gwaith. Derbyniodd tua 2000 o blant lleol llyfr am ddim i'w defynddio ynghyd a'r ap adre gyda'u teuluoedd. Mae gennym ni bellach adnodd arbennig i'w defnyddio gyda phlant ifanc i hyrwyddo gwaith Urdd Gobaith Cymru ac i'w cefnogi wrth ddarllen yn y Gymraeg.

Roedd adborth gan ysgolion a rhieni yn bositif ac mae'r ap wedi'i chwilio dros 40,000 o weithiau bellach ar iTunes, gyda niferoedd uchel yn chwilio'r ap o gwmpas Eisteddfod yr Urdd yn 2018 a 2019.

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Enw: Bethan Price

E-bost: Bethan.jones1@powys.gov.uk

## Logos Partneriaid/Ariannwyr Cyfateol

menter brycheiniog a maesyfed

Urdd

atebol

## Manylion Prosiectau

| Data allweddol | Manylion penodol y Prosiect |
|---|---|
| Cyflawnwyd gan: | Menter Brycheiniog a Maesyfed |
| Dyddiad cychwyn: | Ionawr 2018 |
| Dyddiad Gorffen: | Mawrth 2019 |

arwain

Powys

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | |
|---|---|
| Thema ARWAIN: | 1: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol |

## Manylion

| Disgrifiad | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £14,550 |
| Arian y Cynllun Datblygu Gwledig: | £11,550 |
| Arian cyfatebol: | £3,000 |